

Cartrefi Rhifyn 11 y Gwanwyn Caerffili

Helpwch ni i 'Lunio Eich Lle'



Ymwelwyr yn cwrdd â'r tylluanod o Warchodfa Tylluanod Glyn Ebwy yn y digwyddiad 'Llunio Eich Lle Treffilip'.

Mae llawer ohonoch chi wedi bod yn cyfarfod â ni a rhoi eich barn dros y misoedd diwethaf mewn nifer o ddigwyddiadau ymgynghori a gweithgareddau 'Llunio Eich Lle' a gynhaliwyd ledled y fwrdeistref sirol. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn fel rhan o'n Rhaglen Gwella Amgylcheddol Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC).

Mae SATC yn set o safonau y mae'n rhaid i bob cartref awdurdod lleol a chymdeithas dai yng Nghymru eu bodloni erbyn 2020; mae'n cynnwys safon amgylcheddol sy'n ceisio sicrhau bod cartrefi tenantiaid mewn cymunedau deniadol a diogel. Bydd tua £10 miliwn wedi'i fuddsoddi i ystâdau ledled y fwrdeistref sirol fel rhan o Raglen Gwella Amgylcheddol SATC y cyngor.

Mae prosiectau a gwblhawyd hyd yn hyn o ganlyniad i ymgynghori yn cynnwys gosod cwrbyn wedi ei ollwng ym Mharc Porset, Caerffili, ail-wynebu maes parcio yn Heol y Bryn, Pontlotyn a ffensio o amgylch y fynedfa i Greensway yn Abertyswg.



yourccbhomes
Dilynwch ni ar Twitter.



yourcaerphillyhomes
'Hoffwch' ni ar Facebook.

Cynhaliwyd digwyddiadau ymgynghori penodol ar nifer o gynlluniau tai lloches hefyd i gyd-fynd â gwelliannau SATC mewnol ac allanol. Mae gwelliannau amgylcheddol a gwblhawyd mewn cynlluniau lloches yn cynnwys meinciau newydd yn Y Glyn, Maes-y-cwmwr a gwelliannau i'r ardd gymunedol yn Santes Clare yn Rhymni er mwyn galluogi tenantiaid â phroblemau symudedd i gymryd rhan mewn plannu a thyfu llysiau.

Mae prosiectau eraill a gymeradwywyd yn cynnwys uwchraddio i'r parc sgelfrolio, campfa awyr agored a pharcio ychwanegol ym Mhen-yr-heol, Caerffili. Mae yna hefyd gynlluniau i wella cylchfannau ym Mharc Churchill, Caerffili yn dilyn ymarfer curo drysau. Mae cynlluniau yng Nghefn-y-pant, Trecelyn yn cynnwys gwaith adfer ar Barc Coetir ac uwchraddio'r parc chwarae yn Willow Court. Bydd yr ardal werdd wrth ymyl y parc chwarae yn Nhŷ Sign, Rhisga yn cael ei datblygu gyda meinciau a llwybrau i annog defnydd cymunedol. Mae yna gynigion i ddatblygu llwybr bywyd gwyllt ar yr ystâd rhwng Heol y Gelynnen a Rhodfa'r Llwyfen. Bwriedir gwneud atgyweiriadau hefyd i'r sgwâr yn Nhrinant, Crymlyn ynghyd â gwelliannau i gyfleusterau chwarae ar yr ystâd.

Am ragor o wybodaeth neu i roi syniadau am sut y gellid gwella'ch ardal leol, chwiliwch am 'Rhaglen Gwella Amgylcheddol SATC' ar www.caerffili.gov.uk neu cysylltwch â'r swyddogion ar 01443 864398 / 866231/864002.



Creu bocsus adar yn nigwyddiad 'Llunio Eich Lle' ym Mhen-yr-heol.

Cartrefi Caerffili
Caerphilly Homes



Peidiwch â cholli allan ar eich gwasanaeth gwres canolog

Rydym am rybuddio tenantiaid y byddwn yn gorfodi mynediad i'ch cartref, os oes angen, i gynnal gwiriadau diogelwch hwyr ar systemau gwres canolog. Rydym yn cymryd yr ymagwedd anodd hon i sicrhau eich diogelwch chi, ein tenantiaid.

Mae tenantiaid yn derbyn galwad ffôn cychwynnol gan gcontractwr gwres a benodir gan y cyngor i drefnu apwyntiad cyfleus ar gyfer y gwasanaethu i ddigwydd. Dilyniir hyn gyda llythyr yn cadarnhau'r apwyntiad. Os na ellir trefnu apwyntiad dros y ffôn, anfonir llythyr at y tenant sy'n cynnig apwyntiad. Os nad yw'r tenant yn y cartref ar gyfer yr apwyntiad, byddwn yn anfon llythyr pellach.

Rydym hefyd yn cynnal gwiriadau cefndir i weld a oes unrhyw resymau pam na all tenant gysylltu â ni, fel yn achos tenantiaid bregus.

Bydd Hysbysiad Ceisio Meddiant yn cael ei weini ar yr eiddo ac os na dderbynnir unrhyw gysylltiad, anfonir llythyr terfynol at y tenantiaid yn dweud wrthynt y bydd y cyngor yn mynychu eu cartref a gorfodi mynediad os bydd angen er mwyn cyflawni'r gwasanaeth. Nodwch y bydd tenantiaid hefyd yn atebol am gostau sy'n gysylltiedig â'r mynediad gorfodol os byddant yn methu â darparu mynediad i ni cyn y cam hwn.

Mae Cytundeb Tenantiaeth y Cyngor yn cynnwys y ddarpariaeth i fynd i mewn i eiddo naill ai drwy drefniant gyda'r tenant neu ar ôl rhoi rhybudd ysgrifenedig rhesymol er mwyn gwasanaethu unrhyw osodiadau neu eitemau yn yr eiddo y mae'r cyngor yn gyfrifol amdanynt.



Dywedodd y Cyng. Lisa Phipps, Aelod Cabinet y Cyngor dros Gartrefi a Lleoedd, "Mae gorfodi mynediad i gartref tenant yn ddewis olaf ond mae'n angenrheidiol er mwyn i ni gyflawni ein rhwymedigaethau fel landlord ac, yn bwysicaf oll, i sicrhau diogelwch ein tenantiaid a'u teuluoedd. Roedd yn rhaid inni orfodi mynediad i nifer o gartrefi dros yr wythnosau diwethaf i ymgymryd â gwasanaethu ac rydym yn awyddus i leihau'r nifer o ddigwyddiadau lle mae hyn yn digwydd. Mae'r cyngor yn gwneud pob ymdrech i gysylltu â thenantiaid cyn cyrraedd y cam hwn a byddwn yn annog pobl i wneud yn siŵr nad ydynt yn colli eu gwasanaeth gwresogi blyneddol."

Os ydych wedi colli'ch apwyntiad gwasanaethu blyneddol ffoniwch 01443 864290 cyn gynted ag y bo modd.

Cardiau talu ar gyfer rhent a threth y cyngor

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn newid y system y mae'n ei defnyddio i brosesu taliadau rhent a threth y cyngor yn fuan.

Os oes gennych dderbynnwch fel arfer ar gyfer eich taliad rhent neu dreth y cyngor wedi'i hargraffu ar Gerdyn Talu'r Cyngor, ni fydd y cyfleuster hwn ar gael mwyach pan fyddwn yn newid i'r system newydd. Fodd bynnag,

byddwn yn rhoi derbynneb bapur unigol i chi am bob taliad ar gais, a byddwch yn gallu gofyn am ddatganiad argraffedig sy'n rhestru'r taliadau a wnaethoch dros gyfnod penodol o amser.

Ni fydd cardiau talu rhent newydd yn cael eu rhoi i denantiaid y cyngor unwaith y bydd y system newydd ar waith, a disgwylir i hyn ddigwydd yn y gwanwyn.

Beth am newid i Ddebyd Uniongyrchol?



Er mwyn arbed amser a chost wrth ymweld â ni i wneud eich taliadau, beth am newid i Ddebyd Uniongyrchol? Lawrlwythwch ffurflen ddebyd uniongyrchol o www.caerffili.gov.uk neu cysylltwch â'r tîm Rhenti ar 01443 811450 i gael cyngor am dalu rhent drwy ddebyd uniongyrchol. I drefnu i dalu eich treth y cyngor drwy ddebyd uniongyrchol, ffoniwch 01443 863006.

Cyflwyno Credyd Cyffredinol

Mae Credyd Cyffredinol yn cael ei gyflwyno ar hyn o bryd ledled y DU a disgwylir iddo fynd yn fyw ym Mwrdeistref Sirol Caerffili ym mis Medi 2018.

Mae Credyd Cyffredinol yn fudd-dal newydd sy'n dibynnu ar brawf modd ar gyfer pobl o oedran gweithio. Gallwch gael Credyd Cyffredinol os ydych chi'n ddi-waith ond hefyd os ydych chi'n gweithio.

Mae'n disodli'r budd-daliadau canlynol:

- Cymhorthdal incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm
- Budd-dal Tai
- Credyd Treth Plant
- Credyd Treth Gwaith



Sut y bydd yn effeithio arnaf fi?

Dim ond hawliadau newydd neu newidiadau mewn amgylchiadau ar gyfer unrhyw un o'r budd-daliadau uchod fydd yn cael eu heffeithio i ddechrau. Os ydych chi'n gymwys i gael Credyd Cyffredinol, cewch un taliad bob mis, yn hytrach nag yn wythnosol neu bob

pythefnos. Hefyd, yn hytrach na chael taliad budd-dal tai ar wahân, telir eich costau tai yn uniongyrchol i chi fel rhan o'ch taliad Credyd Cyffredinol misol. Er bod hyn yn gwneud pethau'n symlach, efallai y bydd yn rhaid ichi newid y ffordd rydych chi'n rheoli'ch arian bob mis.

Sut bydd fy rhent yn cael ei dalu?

O dan Credyd Cyffredinol, telir costau tai yn uniongyrchol i chi ac nid i'ch landlord, e.e. y cyngor. Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid i chi dalu'ch rhent o'r taliad Credyd Cyffredinol a gewch bob mis. I wneud hyn yn

haws, gallech sefydlu debyd uniongyrchol ar gyfer eich rhent. Gallwch wneud hyn drwy lawrlwytho ffurflen o www.caerffili.gov.uk neu drwy ffonio ein tîm Rhenti ar 01443 811450.

Sut ydw i'n gwneud cais?

Mae Credyd Cyffredinol yn cael ei hawlio a'i reoli ar-lein; gallwch wneud cais yma www.gov.uk/apply-universal-credit. Bydd yn rhaid i chi fewngofnodi i'ch cyfrif yn rheolaidd a diweddarw'ch cofnodion. Os ydych chi'n ddi-waith, penodir hefyd Hyfforddwr Gwaith ar eich cyfer yn y Ganolfan Byd Gwaith.

Os nad oes gennych fynediad i'r rhyngwyd neu os nad ydych yn hyderus wrth ddefnyddio cyfrifiaduron, gallwch ymweld â'ch llyfrgell leol.

Cefnogi ein tenantiaid

Mae'r Swyddogion Cefnogi Tenantiaeth (SCT) yn parhau i gynorthwyo ein tenantiaid yn eu cartrefi eu hunain gan ddatrys ystod eang o faterion y gallai fod angen cyngor a chymorth arnynt. Gall y gefnogaeth hon amrywio o gynorthwyo gyda hawliadau am fudd-daliadau tai a Budd-daliadau Tai Dewisol i gael mynediad i fanciau bwyd ar adegau o argyfwng a rhoi cyngor i leihau biliau ynni.

Y llynedd, cefnogodd ac ymwelodd yr SCT â 2,183 o denantiaid a sicrhawyd arbedion ariannol o £338,143 i

denantiaid. Rhoddodd y tîm hefyd gyngor ynni i 353 o denantiaid i helpu i leihau eu biliau nwy a thrydan.

Mae'r SCT hefyd yn cynorthwyo tenantiaid sydd wedi gwneud cais am Credyd Cyffredinol gyda chynghor a chefnogaeth ar gyllidebu yn gynyddol.

Os oes angen cymorth arnoch, cysylltwch â'r isadran Rhenti ar 01443 811450 i drefnu ymweliad.

Canolbwyntio ar y Bartneriaeth Gwella Tai (PGT)



Mae'r Bartneriaeth Gwella Tai (PGT) yn grŵp o denantiaid sy'n gweithio gyda ni i wella gwasanaethau yng Nghaerffili. Mae'r PGT yn canolbwyntio ar brofiadau go iawn o denantiaid a lesddeiliaid pan fyddant yn gofyn am wasanaeth ac yn derbyn gwasanaeth. Mae'r PGT yn bwrw golwg newydd i ddeall beth sy'n bwysig i denantiaid; gan ddarparu gwybodaeth werthfawr i helpu swyddogion ac i wella gwasanaethau.

Mae Ian Powell, o Gilfach, wedi bod yn aelod o'r PGT ers iddo ddechrau ym mis Ebrill 2015. Dywedodd, "Yn ystod fy amser ar y grŵp rydym wedi llunio 4 llawlyfr staff ac rydym wedi derbyn sylwadau ardderchog gan swyddogion a Chynghorwyr ar yr hyn a gyflawnwyd. Rwy'n teimlo, fel tenant ar y grŵp hwn, bod y cyngor wedi gwrandao ar ein hawgrymiadau a, lle bo modd, wedi eu gweithredu.

Fel aelod o'r PGT, rwyf wedi gwneud ffrindiau newydd. Rwy'n edrych ymlaen at ein cyfarfodydd rheolaidd ac mae gennyf fewnwelediad ar sut mae tai cymdeithasol yn gweithio. Hefyd, rwyf wedi gallu mynychu cyfarfodydd eraill megis y Gyfnewidfa Gwybodaeth Tenantiaid a digwyddiadau a drefnwyd gan Wasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid Cymru."

Ers iddo ddechrau, mae'r PGT wedi adolygu 4 gwasanaeth ac o ganlyniad i'w gwaith, mae newidiadau wedi eu gwneud i'r ffordd yr ydym yn gwneud pethau. Dyma ychydig yn unig:

Beth ddywedodd tenantiaid wrthym.....	Beth wnaethon ni.....
Cydsyniad Landlord "Rwyf am wneud fy nghais gan ddefnyddio'r sianel gyfathrebu o'm dewis"	Nawr, gallwch siarad â'ch swyddog tai (pan fyddant yn ymweld â chi), ffoniwch eich swyddfa dai leol, ffonio, ysgrifennu neu e-bostio'ch cais am ganiatâd.
Cefnogaeth Tenantiaeth "Rwyf am i chi ddweud wrthyf pwy fydd yn ymweld â fi a gwrandao arnaf os oes gennyf ddewis ar bwy sy'n ymweld"	Nawr, pan fyddwn yn archebu apwyntiad Swyddog Cefnogi Tenantiaid gyda chi, byddwn yn dweud wrthyfch enw'r swyddog a fydd yn ymweld â chi a thrafod gyda chi os oes gennych ddewis o ran pwy sy'n ymweld.
Adennill Incwm "Drwy gydol y broses rwyf am i chi ddefnyddio iaith mod i'n ei deall" "Rwyf am i chi esbonio'n glir pam mae rhywbeth wedi digwydd a beth allaf ei wneud i ddatrys y broblem"	Rydym wedi newid ein llythyrau i'w gwneud yn gliriach ac yn haws i'w deall.

Bydd diweddariad y Cydgyfnewid yn cael ei gwblhau yn fuan; edrychwch am y newyddion diweddaraf yn rhifyn y cylchlythyr hwn yn y dyfodol.

Mae'r PGT fel arfer yn cwblhau 2 adolygiad y flwyddyn, gyda phob adolygiad yn cymryd hyd at 6 hanner diwrnod. Maent yn sesiynau hamddenol, cyfeillgar sy'n helpu i wella gwasanaethau i bob tenant. Os oes gennych ddiddordeb

mewn cymryd rhan, byddwn yn rhoi unrhyw gymorth sydd ei angen arnoch chi - gan gynnwys costau cludiant.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Cynnwys Tenantiaid a Chymunedau ar 01443 811433/811434. Gallwch hefyd e-bostio ni ar 07919 627530 neu anfonwch e-bost atom i cyfranogiadtenantcymuned@caerffili.gov.uk

Rhifau ffôn cyswllt newydd

Mae rhai o'n prif rifau cyswllt wedi newid i'r rhai isod:
Swyddfa Dai Ardal Cymoedd y Dwyrain 01495 235974
Tai Pobl Hŷn - 01443 811431
Rhenti - 01443 811450

Tîm Cynnwys Tenantiaid a'r Gymuned - 01443 811438
Cwynion - 01443 811437
Gwasanaethau Lesddeiliaid - 01443 811439

Diogelwch eich hun a'ch cartref rhag galwyr twyllodrus

Weithiau byddwn yn derbyn adroddiadau am denantiaid sydd wedi cael eu targedu gan alwyr twyllodrus, gan gynnwys digwyddiadau lle mae galwyr wedi esgusodi gweithio i'r cyngor neu ar gyfer un o'n contractwyr. Cofiwch - dylai holl staff y cyngor a chontractwyr gario cerdyn adnabod a byddant yn hapus i'w ddangos os byddwch yn gofyn i'w weld. Hefyd, byddwch yn ymwybodol na ddylai neb byth ofyn i chi wneud taliad gan unrhyw un o'n staff na'n contractwyr am atgyweiriadau neu welliannau a wneir yn eich cartref.

Mae yna hefyd nifer o gwmnïau cyfreithiol sy'n galw ar denantiaid heb rybudd, gan gynnig cefnogaeth gyda hawliau am adfeiliad yn ein herbyn. Cofiwch, os gwnewch gais yn erbyn y cyngor am adfeiliad, byddwch yn atebol am gostau cyfreithiol os bydd y cais yn dod i ben. Yn anffodus, bu nifer o achosion lle'r oedd yn rhaid i denantiaid dalu biliau mawr. Cofiwch hefyd, fel rhan o'ch Cytundeb Tenantiaeth, mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni yn gyflym os oes angen unrhyw waith atgyweirio arnoch a chaniatáu i ni ddod i mewn i arolygu a chwblhau'r gwaith atgyweirio.

Os ydych chi'n pryderu am unrhyw alwyr i'ch cartref, peidiwch â gadael iddynt ddod i mewn a chysylltwch â'ch swyddfa dai leol. Gallwch hefyd adrodd unrhyw bryderon i dîm Safonau Masnach y cyngor a gwneud ar-lein drwy chwilio 'Trosedd ar stepen y drws a masnachwyr twyllodrus' ar www.caerffili.gov.uk neu drwy ffonio 01443 811300.



Yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol - ydych chi'n ei gael?

Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid talu bron pob gweithiwr sy'n 25 oed neu'n hŷn o leiaf y Cyflog Byw Cenedlaethol, neu, os yn iau, yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol. Fel rheol mae'r Llywodraeth yn cynyddu cyfraddau'r isafswm cyflog bob blwyddyn ar 1af Ebrill. Gallai gweithwyr sydd wedi'u cyflogi ar, neu ychydig uwchlaw, yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw barhau i beidio â chael eu cyflog llawn. Gall hyn ddigwydd os yw eu cyflogwr yn gwneud camgymeriadau wrth gyfrifo eu tâl. Mae gwallau cyffredin yn cynnwys:

- **Talu staff ar y gyfradd anghywir** drwy fethu â gweithredu codiadau blynyddol, megis ble mae colli pen-blwydd gweithwyr yn golygu nad ydynt yn symud gweithwyr o un band oed i un arall. Gall gwallau hefyd ddigwydd pan fo'r gyfradd prentis yn cael ei chymhwyso'n anghywir.
- **Gwneud didyniadau neu daliadau sy'n gysylltiedig** â'r swydd a all gymryd tâl islaw'r cyfraddau cyfreithiol. Er enghraifft, gofyn i staff dalu am wisgoed, prydau bwyd, offer neu ddillad diogelwch.
- **Yn cynnwys cildyrnau, lwfansau shift neu fonysau** fel rhan o dâl gweithwyr i ddod â'u cyflogau i fyny i gyfraddau Isafswm Cyflog Cenedlaethol.

- **Oriau gwaith di-dâl.** Gall y rhain fod yn gyfnodau rheolaidd o amser, megis treulio amser yn helpu i gau siop neu i glirio diogelwch ar ôl i shift y gweithiwr ddod i ben.
- **Gwallau statws gweithiwr** drwy drin gweithwyr yn anghywir fel naill ai'n wirfoddolwyr neu'n hunangyflogedig. I ddarganfod mwy am statws hunangyflogedig i weithwyr, chwiliwch ar www.gov.uk.
- **Codi tâl i weithwyr am lety a pheidio** â chymhwyso'r lwfans gwrthbwysu llety wythnosol o £ 44.80 yn gywir. Y gwrthbwysu llety yw'r swm y caniateir ei ddidynnu cyn iddo effeithio ar dâl gweithiwr at ddibenion Isafswm Cyflog Cenedlaethol. Am ragor o wybodaeth am wrthbwysu llety, chwiliwch ar www.gov.uk.
- **Peidio â thalu gweithiwr** am amser hyfforddiant, teithio rhwng apwyntiadau neu amser gwaith arall.

Yr hyn a allwch chi ei wneud

Os nad ydych yn siŵr a ydych chi neu rywun rydych chi'n ei helpu yn cael yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol cywir, gallwch ofyn iddynt ffonio Llinell Gymorth Acas ar 0300 123 1100 i gael mwy o gyngor. Fel arall, gall gweithwyr wneud cwyn ar-lein ar www.gov.uk drwy chwilio am 'Cwynion am hawliau cyflog a hawliau gwaith'. Ni fydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn dweud wrth y cyflogwr enw gweithiwr heb eu caniatâd.

Trawsnewid yn parhau ym Mharc Lansbury



Cartrefi ym Mharc Lansbury cyn y gweithfeydd effeithlonrwydd ynni.

Ym mis Rhagfyr, dechreuodd cam 2 y rhaglen i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi ym Mharc Lansbury. Bydd y gwaith hwn nid yn unig yn trawsnewid ymddangosiad eiddo a'r ystâd, ond bydd hefyd yn helpu i fynd i'r afael â thlodi tanwydd drwy wneud cartrefi yn fwy thermol-effeithlon wrth leihau effaith allyriadau carbon hefyd.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ar gyfer y gwaith hwn fel rhan o'u rhaglen Arbed. Darparwyd cyllid pellach ar gyfer y rhaglen hon o'n rhaglen fuddsoddi Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC).

Rydym hefyd wedi llwyddo i dderbyn gwobr 'Prosiect Graddfa Fawr y Flwyddyn ar Effeithlonrwydd Ynni Rhanbarthol' yng Ngwobrau Effeithlonrwydd Ynni Rhanbarthol Cymru 2018 ar gyfer ein prosiect ar y cyd, gydag E.ON, i wella Parc Lansbury.

Yn ychwanegol at y gwaith effeithlonrwydd ynni, bydd cartrefi sy'n eiddo i'r cyngor ym Mharc Lansbury hefyd yn derbyn rhai gwelliannau allanol ychwanegol sydd eu hangen i ddod â nhw i SATC.

Disgwylir i bob gwelliant allanol ac effeithlonrwydd ynni ym Mharc Lansbury gael eu cwblhau erbyn Mawrth 2019.

Roeddem wrth ein bodd i groesawu Rebecca Evans, y Gweinidog Tai ac Adfywio, i Barc Lansbury ym mis Tachwedd. Yn ystod ei hymweliad, gwelodd Mrs Evans y gwaith effeithlonrwydd ynni a gynhaliwyd i gartrefi a hefyd gwnaeth



Cartrefi Parc Lansbury ar ôl y gweithfeydd effeithlonrwydd ynni.

hi ddarganfod mwy am gynlluniau pellach i drawsnewid yr ystâd a bywydau trigolion lleol. Mae hyn yn cynnwys argymhellion a gynhwysir yng Nghynllun 'Deep Place' Parc Lansbury a gynhyrchwyd gan yr Athro Dave Adamson a Dr Mark Lang y llynedd. Comisiynwyd y Cynllun 'Deep Place' gan y cyngor a'i gefnogi gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerffili. Esboniodd Dr Lang ganfyddiadau'r adroddiad i Mrs Evans yn ystod yr ymweliad diweddar a rhoddodd drosolwg o'r ystod o argymhellion y mae'n ei chynnwys i helpu i fynd i'r afael â rhai o'r materion allweddol a nodwyd drwy'r Astudiaeth 'Deep Place' a gynhaliwyd.



CH – Dd: Karl Rivers (CBSC), Karen James (CBSC), Dr MarkLang, Cyng. Lisa Phipps, Cyng. Barbara Jones, Rebecca Evans AC, Shaun Couzens (CBSC), Jane Roberts-Waite (CBSC), Sean Rees (CBSC)

Tîm Gweithrediadau Atgyweirio Tai yn ail yng ngwobrau perfformiad cenedlaethol

Llongyfarchiadau i'n tîm Gweithrediadau Atgyweirio Tai a oedd unwaith eto ar y rhestr fer ar gyfer gwobr Perfformiwr Gorau ar gyfer arloesiad cynnal a chadw adeiladau yn y Wobr Perfformiwr Gorau Rhwydweithiau Perfformiad Cymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cyhoeddus 2017.

Mae Gwobrau Rhwydweithiau Perfformiad Cymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cyhoeddus

yn cydnabod 'Perfformwyr Gorau' a 'Perfformwyr sydd wedi Gwella Fwyaf' ar draws gwasanaethau llywodraeth leol rheng flaen ar ystod o ddangosyddion perfformiad cost ac ansawdd, gan hybu rhagoriaeth a gwelliant parhaus.

Cydnabuwyd y tîm Gweithrediadau Atgyweirio Tai ar gyfer arloesi yn eu hymagwedd tuag at weithio symudol.

Mae eglwysi Caerffili yn uno i ddarparu lloches i bobl ddigartref

Unodd eglwysi ym Mwrdeistref Sirol Caerffili unwaith eto i ddarparu lloches i'r bobl ddigartref y gaeaf hwn. Cynhelir prosiect Lloches Nos Eglwysi Caerffili mewn partneriaeth â Thîm Cyngor Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cornerstone Support Services Ltd, ac eglwysi lleol.

Nawr yn ei chweched flwyddyn, gweithiodd naw eglwys a thîm o wirfoddolwyr ar gyfer Lloches Nos Eglwysi Caerffili i ddarparu lloches, prydau poeth, cefnogaeth hanfodol a chynghor i'r digartref yn ystod misoedd anoddaf y flwyddyn.

Ym mis Ionawr, treuliodd y Cyng. Lisa Phipps, Aelod Cabinet y Cyngor dros Gartrefi a Lleoedd, noson gyda gwirfoddolwyr lloches nos yn Eglwys Gatholig Rufeinig Santes Helen yng Nghaerffili. Hefyd mynychodd David AS, ynghyd â Chynghorwyr Cymuned Bedwas, Tretomos a Machen, Jill Winslade ac Amanda McConnell.

Dywedodd y Cyng. Phipps "Mae llwyddiant Lloches Nos Eglwysi Caerffili yn dibynnu ar ymdrechion cydlynwyr a gwirfoddolwyr yr eglwys; hebddynt, ni fyddai'r prosiect yn bosibl. Hoffwn ddiolch i'r gwirfoddolwyr yn Eglwys



Cyng. Phipps, Wayne David AS, Cynghorwyr Cymuned Jill Winslade ac Amanda McConnell gyda gwirfoddolwyr yn eglwys Santes Helen, Caerffili.

Santes Helen am y croeso cynnes a roddasant i ni a gallaf hefyd ddiolch i'r holl eglwysi a gwirfoddolwyr yn y fwrdeistref sirol sy'n cymryd rhan. Profiad hynod werth chweil oedd yn treulio amser yma yn y lloches nos, cael gwybod mwy am y cymorth a ddarperir a chwrdd â'r gwesteion."

Roedd Lloches Nos Eglwysi Caerffili yn weithredol o 3ydd Rhagfyr 2017 tan 1af Mawrth 2018. Os mae unrhyw un yn ymwybodol o rywun a allai fod yn cysgu ar y stryd, gallant gysylltu â'n Canolfan Gyngori ar 01443 873552 neu Andrew Clarke o Cornerstone Support Services Ltd ar 07946 537777.

A allech chi ein helpu i wella'r cylchlythyr hwn?

Dod yn Adolygydd Cadair Freichiau

Mae Adolygwyr Cadair Freichiau'n denantiaid sy'n rhoi adborth i ni ar y cylchlythyr hwn a ffyrdd eraill y byddwn yn cyfathrebu â thenantiaid, i gyd yng nghysur eu cartrefi eu hunain. Bob tro mae Adolygydd Cadair Freichiau'n rhoi adborth i ni, bydd yn cael y cyfle i ennill taleb siopa gwerth £25 ar y stryd fawr!

Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn Adolygydd Cadair Freichiau, neu mewn cael gwybod am gyfleoedd eraill i gymryd rhan ynddynt, cysylltwch â'n Tîm Cynnwys Tenantiaid a Chymunedau ar 01495 235011/235557 neu drwy e-bostio cyfranogiadtenantcymuned@caerffili.gov.uk

Mae'r Hawl i Brynu yn dod i ben

Bydd yr Hawl i Brynu yn dod i ben ar gyfer holl denantiaid y cyngor yng Nghymru ar 26ain Ionawr 2019. Mae hyn yn golygu na fyddwch yn gallu gwneud cais i brynu'ch cartref cyngor ar ôl y dyddiad hwn. Ni fydd hyn yn effeithio ar eich tenantiaeth mewn unrhyw ffordd arall.

Bydd yr Hawl i Brynu yn dod i ben ar gyfer "cartrefi newydd" yn unig ar 24ain Mawrth 2018. Mae "cartrefi newydd" yn un na chafodd ei osod fel tŷ cymdeithasol am y chwe mis cyn 24ain Mawrth 2018, er enghraifft eiddo a adeiladwyd o'r newydd, neu gartref sydd wedi cael ei brynu gan y landlord yn ddiweddar.

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer yr Hawl i Brynu mae'n rhaid i chi fod wedi rhentu'ch cartref oddi wrth landlord sector cyhoeddus, e.e. y cyngor, cymdeithas dai neu Ymddiriedolaeth GIG am bum mlynedd. Nid oes rhaid i hyn fod yn bum mlynedd yn olynol a gall gynnwys amser a dreulir mewn cartrefi gwahanol a chyda gwahanol landlordiaid. Mae'r Hawl i Brynu yn caniatáu i denantiaid cymwys cynghorau lleol brynu eu cartref am ostyngiad

o werth y farchnad; y gostyngiad mwyaf sydd ar gael yw £8,000.

Os ydych chi'n gallu arfer hawl i brynu'ch cartref, gallwch gyflwyno'ch cais hyd at, ac yn cynnwys, 25ain Ionawr 2019. Ni dderbynnir unrhyw gais a wneir ar ôl y dyddiad hwn.

Os ydych chi'n gwneud cais yn agos at 25ain Ionawr 2019, efallai y byddwch am anfon eich cais atom drwy ddanfoniad wedi'i gofnodi, neu ei gyflwyno'n bersonol er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd erbyn y dyddiad cau. Mae'n rhaid i chi fod yn ofalus i sicrhau bod yr holl fanylion ar y ffurflen gais yn gywir. Os nad ydyn nhw, yna efallai y bydd eich cais yn cael ei wrthod. Gyda hyn mewn golwg, mae'n well i chi ganiatáu cymaint o amser â phosib i ddatrys unrhyw faterion a allai godi.

Am ragor o wybodaeth am yr Hawl i Brynu, chwiliwch am 'Hawl i Brynu' ar www.caerffili.gov.uk neu cysylltwch ag Adran Gyfreithiol y Cyngor ar 01443 864221 neu 01443 863097/8.

Mae cynnydd SATC yn parhau



Mr a Mrs Rosser.

Mae ein rhaglen Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) yn symud ymlaen yn dda, gyda thros 70% o gartrefi tenantiaid bellach wedi derbyn gwelliannau mewnol a 35% wedi elwa o waith allanol. Ar hyn o bryd, mae 7,619 o eiddo o gyfanswm stoc tai'r cyngor o 10,803 wedi cwrdd â safonau SATC yn fewnol, gyda 3,700 wedi derbyn gwelliannau allanol. Fe wnaethom hefyd ddarparu 419 o addasiadau penodol i gartrefi tenantiaid y flwyddyn ariannol hon,

i sicrhau bod cartrefi yn diwallu anghenion tenantiaid unigol.

Un cwpl a elwodd o addasiadau o'r fath yw David a Susan Rosser o Fachen. Derbyniodd Mr a Mrs Rosser yr allwedd i ar gyfer eu byngalo dan berchnogaeth y cyngor ym mis Mai 2017, ar ôl iddynt orfod symud i gartref llai o faint. Yn fuan ar ôl symud i mewn i'w cartref newydd, daeth Therapydd Galwedigaethol a Syrfêwr gan dîm SATC y cyngor i ymweld â nhw. Bu'r tîm yn gweithio gyda Mr a Mrs Rosser i ddylunio cegin newydd o gwmpas eu gofynion a hefyd yn argymhell cyfnewid y bath ar gyfer cawod cerdded i mewn i gwrdd ag anghenion ieuchyd Mrs Rosser yn well. Hefyd gosodwyd llwybr a chanllaw yn yr ardd gefn i'w gwneud yn haws ac yn fwy diogel i'r cwpl gyrraedd y lein ddillad.

Dywedodd Mr Rosser "Roedd yr opsiynau lliw a gynigiwyd i ni ar gyfer y gegin a'r ystafell ymolchi yn drawiadol, ac yr ydym mor hapus â'r gwaith gorffenedig. Roedd pawb a ymwelodd fel rhan o'r gwaith yn mynd allan o'u ffordd i'n helpu ni; o'r Therapydd Galwedigaethol, Syrfêwr a Foreman i'r gweithlu a gyflawnodd y gwaith - roedden nhw i gyd yn rhagorol. Yn ddiweddar, rydym wedi gorffen addurno gweddill y byngalo ac yn ymgartrefu'n dda yn ein cartref newydd."

Er ein bod yn gwneud ein gorau i sicrhau bod y wybodaeth yn y cylchlythyr hwn yn gywir, gallwn weithiau gael pethau'n anghywir; gwiriwch gyda ni bob amser yn gyntaf!